

# Prif Hyfforddwr Dynion Hŷn Cymru

## Hysbyseb Swydd a Disgrifiad Rôl

# CYNNWYS


- Croeso
- Cyd-destun y Rhaglen
- Prif Ddyletswyddau
- Profiad a Gwybodaeth
- Manyleb y Person
- Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Sut i Wneud Cais




# CROESO

Mae Hoci Cymru yn chwilio am Brif Hyfforddwr rhagorol i arwain rhaglen Dynion Hŷn Cymru i'w cham nesaf o gystadlu yn rhyngwladol.

Y flaenoriaeth uniongyrchol yw paratoi'r tîm i gystadlu'n llwyddiannus yn Adran A Pencampwriaeth EuroHockey 2027, gan barhau i adeiladu rhaglen gynaliadwy sy'n gallu cystadlu â gwledydd hoci blaenllaw y byd y tu hwnt i 2027.

Mae hon yn rôl hyfforddi ac arwain rhaglen ymarferol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn pennu cyfeiriad technegol a thactegol y tîm, yn arwain staff a grŵp chwaraewyr y dynion hŷn, ac yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Perfformiad i greu'r amgylchedd perfformio gorau posibl.

Mae'r rhaglen yn un rhan amser ac nid yw'n ganolog. Mae’r chwaraewyr yn ymdopi â hoci rhyngwladol ochr yn ochr â hoci clwb, cyflogaeth, astudio ac ymrwymiadau bywyd ehangach, felly rhaid i'r Prif Hyfforddwr fod yn hyblyg, yn ddyfeisgar ac yn fwriadol drwy fanteisio i’r eithaf ar amser cyswllt cyfyngedig.



# CYD-DESTUN Y RHAGLEN

**RHAGLEN RYNGWLADOL HERIOL SY’N CAEL EI CHYFLWYNO O FEWN CYFYNGIADAU BYD REAL**

•Rôl ar gontract rhan amser yn hytrach na phenodiad canolog llawn amser i'r tîm cenedlaethol.

•Yn cael ei chyflwyno drwy wersylloedd hyfforddi wedi'u targedu, ffenestri rhyngwladol, blociau cystadlu a gwaith o bell oddi ar y cae drwy gydol y flwyddyn.

•Gwersylloedd wedi'u cynllunio'n hyblyg o amgylch ymrwymiadau clybiau domestig a thramor, ar benwythnosau yn aml neu o fewn ffenestri y cytunwyd arnynt.

•Manteisio i’r eithaf ar gyswllt wyneb yn wyneb cyfyngedig wrth gynnal cysylltiad y chwaraewyr, eglurder a datblygiad rhwng gwersylloedd.

•Mae’r chwaraewyr yn hunangyllido yn bennaf; rhaid i benderfyniadau ystyried effaith perfformiad ochr yn ochr â chost athletwr, amser i ffwrdd o waith / astudio, teithio a'r baich cyffredinol.

•Mae angen teithio’n rheolaidd yn y DU ac yn rhyngwladol.

•Gweithio'n agos gyda Hoci Cymru i sicrhau bod y rhaglen yn uchelgeisiol, yn gyfrifol yn ariannol ac yn bosib ei chyflawni o fewn adnoddau y cytunwyd arnynt.



# PRIF DDYLETSWYDDAU

## Arweinyddiaeth, Diwylliant a Chynllunio Perfformiad

•Darparu arweinyddiaeth weladwy ac ysbrydoledig i grŵp chwaraewyr Dynion Hŷn Cymru a staff amlddisgyblaethol.

•Arwain rhaglen berfformiad dan arweiniad hoci wedi'i sbarduno gan hyfforddwyr a gyda'i ffocws ar chwaraewyr mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Perfformiad.

•Creu diwylliant cadarnhaol, heriol a pherfformiad uchel gyda safonau, ymddygiadau, swyddogaethau ac atebolrwydd clir.

•Arwain a rheoli'r staff hyfforddi a chefnogi fel un tîm perfformiad cysylltiedig.

•Diffinio canlyniadau perfformiad, blaenoriaethau'r rhaglen a mesurau allweddol o gynnydd.

•Datblygu a chyfathrebu cynlluniau perfformiad blynyddol ac aml-flwyddyn, gyda ffocws uniongyrchol ar barodrwydd ar gyfer Adran A Pencampwriaeth EuroHockey 2027.

•Llunio calendr hyfforddi a chystadlu effeithiol o amgylch hoci clwb, argaeledd chwaraewyr ac adnoddau'r rhaglen.

•Adolygu gwersylloedd a chystadlaethau a defnyddio dysgu i wella'r rhaglen yn barhaus



# PRIF DDYLETSWYDDAU

## Rhaglen Hoci, Cystadlu a Datblygu Chwaraewyr

•Arwain y gwaith o gynllunio a chyflwyno rhaglen hoci ryngwladol hŷn o ansawdd uchel ar draws meysydd technegol, tactegol, corfforol a seicolegol.

•Sefydlu hunaniaeth chwarae a model gemau clir i Gymru gydag egwyddorion y gall chwaraewyr eu gweithredu o dan bwysau.

•Datblygu gallu unigol, safle, uned a thîm drwy amgylcheddau hyfforddi blaengar sy'n efelychu gofynion rhyngwladol.

•Defnyddio fideo, data a dadansoddi perfformiad fel sail i baratoi, strategaeth y gwrthwynebwyr, penderfyniadau hyfforddi ac adolygu.

•Arwain y gwaith o baratoi ar gyfer gemau a thwrnameintiau, gan gynnwys cynlluniau gemau, swyddogaethau chwaraewyr a phenderfyniadau tactegol / personél o dan bwysau.

•Cynnal dealltwriaeth gref o'r gronfa o chwaraewyr cymwys yng Nghymru ac arwain y gwaith o ddewis carfan a thîm yn seiliedig ar dystiolaeth.

•Darparu adborth rheolaidd, clir ac adeiladol i chwaraewyr, gan gynnwys sgyrsiau gonest ynghylch dewis, rôl a datblygiad.

•Cryfhau'r cyfnod pontio o'r llwybr i'r rhaglen hŷn ac adeiladu dyfnder ac olyniaeth ar draws safleoedd allweddol.



# PRIF DDYLETSWYDDAU

## Arweinyddiaeth Staff, Lles Athletwyr a'r Rhaglen Ehangach

·Sefydlu swyddogaethau, cyfrifoldebau a ffyrdd o weithio clir ar draws ymarferyddion hyfforddi, meddygol, paratoi corfforol, dadansoddi a chefnogi.

·Blaenoriaethu amser staff yn effeithiol a sicrhau’r arbenigedd gorau posibl o fewn realiti rhaglen ran amser.

·Integreiddio gwybodaeth am iechyd, lles, argaeledd a pherfformiad chwaraewyr mewn penderfyniadau cynllunio a dewis.

·Rhoi lles athletwyr a pherfformiad cynaliadwy wrth galon gwneud penderfyniadau, gan gydnabod gofynion clwb, teithio, cyflogaeth, astudio a phersonol.

·Sicrhau cyn lleied o ofynion ariannol ac amser diangen ar athletwyr sy'n cyllido eu hunain yn bennaf, heb gyfaddawdu ar baratoadau hanfodol.

·Cyfrannu at strategaeth Perfformiad ehangach Hoci Cymru a chysylltu'r rhaglen hŷn â gweithgarwch cenedlaethol ar gyfer grwpiau oedran a llwybrau datblygu.

·Cynrychioli Cymru a Hoci Cymru yn broffesiynol gyda chlybiau, GB Hockey, partneriaid, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill.

·Gweithio o fewn cyllidebau rhaglen y cytunwyd arnynt a sicrhau cydbwysedd rhwng uchelgais perfformiad a chynaliadwyedd ariannol.



# PROFIAD

## Profiad a Gwybodaeth Hanfodol

•Profiad hyfforddi sylweddol mewn amgylchedd hoci perfformiad uchel.

•Gwybodaeth dechnegol a thactegol eithriadol a dealltwriaeth o dueddiadau rhyngwladol cyfredol.

•Y gallu i greu athroniaeth chwarae glir a'i throsi'n gynllun hyfforddi effeithiol.

•Profiad o arwain a chymell chwaraewyr a staff mewn amgylcheddau perfformiad heriol.

•Profiad o gynllunio a chyflwyno rhaglenni lle mae amser cyswllt ac adnoddau'n gyfyngedig.

•Gallu cadarn o ran datblygu chwaraewyr, adborth a herio.
•Profiad o ddefnyddio dadansoddiad fideo, data perfformiad a thechnoleg hyfforddi gyfoes.

•Sgiliau cyfathrebu, meithrin perthnasoedd a sgyrsiau anodd cadarn.

•Cymhwyster hyfforddi perfformiad uchel priodol neu brofiad cyfatebol clir.



# MANYLEB Y PERSON

## Eich Sgiliau a'ch Rhinweddau

- Arweinydd ysbrydoledig a chredadwy
- Uchelgeisiol gyda pherfformiad yn sbardun i chi
- Hyblyg a phragmatig
- Cydweithredol a chysylltiedig
- Trefnus a dibynadwy
- Hunanymwybodol ac adlewyrchol
- Digynnwrf a phenderfynol o dan bwysau
- Integriti, gonestrwydd a pharch
- Ymrwymiad gwirioneddol i Gymru a hoci yng Nghymru yn y tymor hir



# EIN HYMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd amrywiol ac mae'n falch o fod yn rhan o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Bydd pob ymgeisydd cymwys yn cael ei ystyried ar gyfer cyflogaeth heb ystyried hil, lliw, crefydd, rhywedd, hunaniaeth neu fynegiant o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, tarddiad cenedlaethol, geneteg, anabledd nac oedran.




Isod mae rhai enghreifftiau o arfer gorau lle rydym yn ymdrechu i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwasanaethau bob dydd.

Mae holl aelodau o staff Hoci Cymru wedi cwblhau'r hyfforddiant "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth", gan ddangos ein hymrwymiad cadarn i greu amgylchedd cynhwysol a pharchus yn y byd hoci yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i siarter 'Equally Amazing' EuroHockey:

https://eurohockey.org/eurohockey-equally-amazing-campaign

# SUT I WNEUD CAIS

•Dyddiad Cau - Dydd Mercher 14eg Hydref

I wneud cais:

•Cyflwynwch CV a llythyr ategol yn amlinellu sut rydych chi'n bodloni meini prawf y rôl

•Anfonwch eich cais at katie.glynn@hockeywales.org.uk

•Cyflwynwch wybodaeth monitro cydraddoldeb https://forms.office.com/e/H5wki99TRE

•Am ragor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â katie.glynn@hockeywales.org.uk



•Hoci Cymru,
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru,
Caerdydd, CF11 9SW

www.hockeywales.org.uk info@hockeywales.org.uk

Facebook - @Hoci Cymru
Twitter - @HockeyWales
Instagram - @hoci_cymru

•Mae Hoci Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac wedi ymrwymo i weithredu ein Polisïau Cydraddoldeb. Rydym yn annog ac yn croesawu'n gadarnhaol geisiadau o bob cymuned.

•Mae Hoci Cymru eisiau diolch yn fawr i Chwaraeon Cymru a GB Hockey am eu cefnogaeth barhaus i hoci yng Nghymru.